

PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 1 HYDREF 2019

Yn
bressenol: Cynghorydd Patel(Cadeirydd)

Cynghorwyr Boyle, Derbyshire, Owen Jones, Lancaster,
Jackie Parry, Owen a/ac Wong

23 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Wood.

24 : DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'u cyfrifoldeb o dan Ran III o God Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant yn gyffredinol a chwblhau ffurflenni buddiannau personol ar ddechrau'r cyfarfod ac yna, cyn dechrau trafod yr eitem o dan sylw, nodwch a yw'n fuddiant personol neu sy'n rhagfarnol. Os yw'r buddiant yn rhagfarnol, gofynnir i Aelodau adael y cyfarfod ac os yw'r buddiant yn bersonol, byddai'r Aelodau'n cael eu gwahodd i aros, siarad a phleidleisio.

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

25 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2019 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

26 : CYFARWYDDIAETH CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A'R AMGYLCHEDD - ADRODDIADAU CHWARTER 3 A PHERFFORMIAD ALLDRO 2018/19

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr M Michael ac C Wild i gyfarfod y Pwyllgor.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd M Michael i wneud datganiad yn nodi pwysigrwydd craffu i'r cyngor a chroesawodd y cyfle i ddod i'r cyfarfod ac ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gan y Pwyllgor.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar Adroddiadau Chwarter 3 a Pherfformiad Alldro 2018/19 a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y materion canlynol:

- Dangosyddion Perfformiad – Strydlun
- Dangosyddion Perfformiad - Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd
- Amcanion - Camau'r Cynllun Corfforaethol – alldro ar ddiwedd y flwyddyn
- Cyflawniadau a Newyddion Da
- Heriau Allweddol

Yn dilyn y drafodaeth/cyflwyniad, gofynnodd y Cadeirydd i Aelodau'r Pwyllgor a hoffent wneud sylwadau, codi cwestiynau neu ofyn am eglurhad pellach ar unrhyw rai o'r materion a drafodwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd y Pwyllgor fod y Gwasanaethau Gwastraff wedi symud i'r Gyfarwyddiaeth Pobl a Chymunedau a holodd ynghylch y rhesymeg dros y newid hwn. Eglurwyd bod y gwasanaethau yn edrych ar fwy o synergedd gyda'r Gyfarwyddiaeth a'r projectau mwy a oedd yn cael eu cynllunio ac yn darparu mwy o ffocws ar newid diwylliannol.
- Cododd yr Aelodau bryderon y trigolion ynglŷn â chyfleuster ailgylchu gwastraff y cartref yn Wedal Road a nodi safle addas yn lle hynny. Eglurodd yr Aelod Cabinet fod nifer o safleoedd wedi'u hystyried, ond nad oeddent ar gael, yn rhai i'w gwerthu neu'n rhy ddrud, a byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am safleoedd posibl gan Aelodau lleol. Ychwanegodd fod gan y cyngor ddau safle yn barod a oedd yn nifer debyg i'r Cyngorau Dinas eraill. Roedd Ffordd Lamby a Heol Bessemer yn rhedeg cyfradd ailgylchu o 65%. Cwestiynodd yr angen am safle ychwanegol gan nad oedd y cyfraddau ailgylchu a lefelau tipio anghyfreithlon wedi cynyddu, er ei fod yn agored i ymgysylltu â thrigolion ac Aelodau ar safle codi neu safleoedd bach i gynyddu ailgylchu. Ailadroddodd yr Aelodau'r angen am safle addas yng Ngogledd Caerdydd ond nododd yr Aelod Cabinet fod y safleoedd presennol o fewn cyrraedd rhesymol i bawb sydd â char.
- Nododd y Pwyllgor ei bod yn ymddangos bod y targed ailgylchu trefol wedi arafu ar 59% a'i fod am wybod sut y gellid gwneud naid i'r targed disgwylidig o 64% yn gyflym iawn (yn arbennig eleni). Eglurwyd bod Caerdydd yn gyffredinol yn ailgylchu'n dda a bod gwaith yn cael ei wneud gyda Llywodraeth Cymru a'n partneriaid i ddatblygu strategaeth y cyngor a'r penderfyniadau yr oedd angen eu gwneud. Roedd angen defnyddio arferion da er mwyn cyflawni'r targed. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod cyfleoedd i leihau cyfaint yr halogiad. Roedd angen proses i nodi bagiau halogedig a rhoi gwybod i breswylwyr am yr halogiad, sut y dylid mynd i'r afael â hyn, a'r cymorth addysgol a ddarperir cyn i unrhyw orfodaeth ddigwydd. Croesawodd yr Aelodau yr ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a'r lefelau ailgylchu a oedd yn llwyddiant ysgubol. Holwyd a oedd unrhyw fentrau'n cael eu cynllunio i sicrhau cynnydd sylweddol mewn ailgylchu. Roedd swyddogion yn cydnabod bod 30-40% o'r holl ddeunydd mewn bagiau DU yn wastraff y gellid ei ailgylchu a byddai angen modelau ailgylchu gwahanol. Awgrymodd yr Aelod Cabinet y byddai hyn yn cymryd amser a dywedodd ei fod yn cymryd hyd at naw mis i gael cerbyd ailgylchu newydd. Aeth ymlaen i ailystyried yr angen i ymgysylltu'n effeithiol â'r trigolion ynghylch y prosesau ailgylchu a fyddai'n fuddiol o ran bodloni'r gofyniad. Dylai hyn fod yn ddull cydweithredol a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i bawb ymgysylltu ag unrhyw gynigion a phrosesau ailgylchu newydd.
- Nodwyd yn y cyflwyniad y byddai Brexit yn cael effaith ar y marchnadoedd ailgylchu, a gofynnwyd i swyddogion pa fesurau lleol oedd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn. Dywedodd y swyddogion mai Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am hyn ond roedd trafodaethau ar y gweill i weld sut y gellid mynd i'r afael â hyn.
- Nododd y Pwyllgor fod symudiad enfawr ar gyfer plastig a lleihau gwastraff a fyddai, pe bai'n llwyddiannus, hefyd yn lleihau maint yr ailgylchu. Roedd swyddogion wedi siarad â Llywodraeth Cymru ac roedd y plastigau a oedd yn cael eu trafod yn ffurfio rhan fach o gyfanswm yr ailgylchu. Mae pecynnau Tetra gyda'u deunyddiau aml-haenog yn parhau i fod yn her fwy, a fyddai'n ei

gwneud yn ofynnol i weithgynhyrchwyr ystyried defnydd oes gyfan ac ailgylchu deunydd pacio.

- Ar ôl cwblhau'r cynllun peilot ailgylchu gwydr Holodd yr Aelodau pryd y byddai'r rhaglen yn cael ei chyflwyno'n llawn ac am ba hyd y byddai'n cymryd i'w gweithredu. Eglurodd y swyddogion fod y peilot wedi bod yn llwyddiannus ond roedd yr awdurdod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i bennu'r ffordd orau o fynd ymlaen â hyn i'w gyflwyno'n llawn.
- Holodd y Pwyllgor am ganran y gwastraff a anfonwyd dramor i'w brosesu neu ei waredu. Ymatebodd swyddogion fod gwastraff, gan gynnwys deunydd wedi'i ailgylchu, yn cael ei olrhain gyda system o'r enw Llif Data Gwastraff. Proseswyd y rhan fwyaf o wastraff o fewn Ewrop, gyda dim ond maint bach yn cael ei waredu mewn mannau eraill.
- Roedd gorwariant o £2.5 miliwn mewn Gwasanaethau Gwastraff a oedd wedi deillio o dargedau gwastraff masnach realistig a chynnydd mewn costau ailgylchu. Roedd pob gwasanaeth yn cael ei ystyried er mwyn gwneud arbedion ac effeithlonrwydd ac er y gellid tynnu'r gwasanaethau gwastraff masnach yn ôl, byddai effeithiau eraill ar y staff ac ar y busnesau sy'n ei ddefnyddio. Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu gwell dealltwriaeth i ddarparu ailgylchu moesegol ar gyfer y ddinas.
- Nododd y Pwyllgor fod yr Aelod Cabinet wedi nodi bod glendid strydoedd wedi gwella ac nad oedd tystiolaeth o gynnydd mewn tipio anghyfreithlon. Nododd y Cynghorydd Boyle fod cais Rhyddid Gwybodaeth gan ei grŵp yn 2017-18 wedi nodi bod achosion o dipio anghyfreithlon wedi cynyddu o 1,535 i 3,662 ar ôl cau Heol Wedal. Cyfrannodd hyn at y Cyngor yn gostwng o fod yn 13^{eg} i 19^{eg} ar y mesur atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer glendid strydoedd. Esboniodd yr Aelod Cabinet fod £250 miliwn wedi'i dynnu o'r gyllideb ac felly mae hyn bellach yn cael effaith ar wasanaethau.
- Nododd y cyflwyniad raniad moddol 50/50 gyda defnydd ceir yn gostwng o 56% i 46% fodd bynnag, nid oedd y niferoedd hyn yn cyfateb i'r tueddiad ar gyfer moddau trafndiaeth eraill. Cydnabuwyd bod y defnydd o geir wedi gostwng 10% a bod y defnydd o feiciau dim ond wedi cynyddu o 5% (a oedd yn gadarnhaol). Awgrymodd y Pwyllgor fod angen rhagor o fanylion am sut y datblygwyd y ffigurau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n gywir dueddiadau beicwyr yn ddyddiol neu'n rheolaidd yn hytrach na defnydd achlysurol. Eglurodd y swyddogion y gellid ymhelaethu ar y ffigurau i egluro bod y cyfraddau beicio'n cynnwys pob taith gan gynnwys teithiau i'r gwaith. Gallai cynnydd mewn teithio mewn ceir fod yn gysylltiedig â nifer y bobl sy'n symud o amgylch y ddinas ond gellid ehangu ar hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- Gofynnodd yr Aelodau beth oedd y ffactorau a oedd wedi arwain at y gwelliannau yn y cyfraddau beicio. Eglurodd yr Aelod Cabinet fod diwrnodau di-gar, y cynllun 'Nextbike' a chynlluniau teithio llesol yn y gweithle wedi helpu. Mae beicwyr hefyd wedi cael eu harolygu ynghylch gwelliannau i briffyrdd. Buddsoddwyd mewn seilwaith, mae lleoedd parcio beiciau wedi cynyddu ac mae'r gwaith hyrwyddo gan elusennau beicio wedi cael effaith gadarnhaol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod gwariant ar feicio wedi cynyddu'n sylweddol

dros y blynyddoedd diwethaf ac mae rhai o'r buddsoddiadau bellach yn cynnig y manteision a fwriadwyd.

- Holodd y Pwyllgor pam fod cyflwyno cynlluniau teithio llesol wedi bod yn araf. Dywedwyd wrthynt fod y rhain yn cael eu cyflwyno o fis Tachwedd gyda chysylltiad sylweddol ag ysgolion gyda'r bwriad o ddatblygu llwybrau mwy diogel o'r cartref i'r ysgolion. Nododd y Cadeirydd fod tanwariant yng nghyllideb cludiant yr ysgol o £197,000, a gofynnodd a oedd hyn yn cael effaith negyddol ar deithio cynaliadwy. Fe'i cynghorwyd bod y gyllideb yn cael ei defnyddio i gynorthwyo unigolion i fynd i'r ysgol drwy ddefnyddio tacsis neu drafnidiaeth arall. Dilynwyd y mater hwn yn y papur gwyn ar drafnidiaeth newydd a oedd yn cael ei ddatblygu ac roedd y gwasanaeth yn cysylltu ag addysg i sicrhau bod y gwasanaethau trafnidiaeth cost effeithiol yn cael eu rhoi ar waith.
- Nododd Aelodau fod y gyllideb trafnidiaeth gynaliadwy i ysgolion yn gostwng a bod rhieni yn cael trafferth penderfynu pa blentyn i'w anfon i'r ysgol. Dywedodd swyddogion fod gwaith partneriaeth gydag ysgolion yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod lefelau priodol o gludiant ysgol yn cael eu darparu.
- O ystyried bod niferoedd y cartrefi cyngor yn cynyddu a fydd ein targed yn cynyddu'n uwch na'r targed presennol o 30%. Roedd tai fforddiadwy'n cynyddu gyda gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu'r dull hyfywedd a chyfannol o ymgysylltu â phartneriaid i gyflawni'r targedau parhaus ond roedd yn annhebygol o gael eu cynyddu nes i'r targed gael ei gyflawni.
- Nododd yr adroddiad fod lefelau salwch yn uchel, gan negyddu gwaith blaenorol a arweiniodd at leihad mewn absenoldeb oherwydd salwch. Eglurodd swyddogion fod gwaith wedi'i dargedu wedi arwain at rywfaint o lwyddiant ond bod ymdrechion yn parhau yn arbennig gyda'r gweithwyr hynny a oedd ar salwch tymor hir. Roedd y swyddogion yn gweithio gyda'r tîm a'r adnoddau dynol i sicrhau bod y polisiau'n cael eu dilyn a bod y gwasanaethau'n annog pobl i fynd yn ôl i'r gwaith cyn gynted â phosibl. Ailbwysleisiodd yr angen i lynu'n gaeth wrth y polisi presenoldeb a lles, yn ogystal â'r angen i gynllunio'r gweithlu yn effeithiol.

Holodd y Cadeirydd am y lefelau salwch uwch i 17% ac nad oedd yn ymddangos bod 98% o'r cyfweiliad dychwelyd i'r gwaith wedi cael effaith ar lefelau absenoldeb oherwydd salwch. Dywedodd y Swyddogion eu bod yn dilyn y Polisi Presenoldeb a Lles, ond yr unig ôl-lenwadau absenoldeb salwch a ddefnyddiwyd gennym oedd ar gyfer casgliadau gwastraff yr oedd eu hangen i sicrhau bod timau ar lefel briodol. Ni wyddys a oedd cydberthynas uniongyrchol rhwng y swydd wedi'i hôl-lenwi a'r cynnydd yn y gorwariant.

Awgrymodd yr Aelodau y gellid defnyddio cynigion i ddefnyddio cyfleusterau eraill y Cyngor, er enghraifft, y Theatr a'r Castell, i gymell presenoldeb da neu i atal absenoldeb oherwydd salwch. Cynghorwyd y Pwyllgor y gallai hyn greu anawsterau gyda'r rhai nad oeddent yn gallu mynd i'r gwaith ac na fyddai'n cyd-fynd â'r cydraddoldeb a fwriadwyd gan y polisiau cyfredol.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd gyda'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:-

- Targedau Ailgylchu Llywodraeth Cymru - Gallai deall y gwahaniaethau rhwng canlyniadau awdurdodau lleol tebyg roi rhai o'r atebion sydd eu hangen ar Gaerdydd i wella ei pherfformiad.
- Cyfraddau Salwch Uchel
 - Cyfweiliadau Dychwelyd i'r Gwaith - Mae cyfraddau salwch wedi parhau i godi, gan awgrymu efallai nad yw'r polisi yn gweithio'n effeithiol mewn rhannau o'r Cyngor. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i mi a oes unrhyw gynlluniau ar waith i adolygu effeithiolrwydd y polisi hwn, neu i newid ei fformat.
 - Costau Gorwario - Faint o'r gorwariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i gyfraddau salwch uchel gan gynnwys 'ôl-lenwi' swyddi oherwydd salwch
 - Cyfraddau Salwch Cynyddol - Er mwyn gwrthdroi'r newid hwn, mae angen cynllunio strategol ac arweinyddiaeth gan Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor.
 - Salwch: Meddwl tu allan i'r Bocs – bod y Cyngor yn meddwl yn ofalus am ddefnyddio'r adnoddau sydd ganddo i ddiolch i'r staff am y gwaith a wnânt, ac o bosibl yn rhoi gwobrwyon am bresenoldeb da
- Peilot Ailgylchu Gwydr - O gofio bod y cynllun peilot wedi bod yn llwyddiant, hoffai'r Pwyllgor wybod:
 - Pam nad yw'r cynllun wedi'i gyflwyno ledled Caerdydd eto;
 - Os oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno'r cynllun peilot ailgylchu gwydr ledled Caerdydd, ac os felly pryd y mae hyn yn debygol o ddigwydd?
- Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref Newydd - Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi rhestr o safleoedd posibl sydd wedi'u nodi, a'r rhesymau pam y barnwyd bod y rhain yn anaddas. Hoffai'r Pwyllgor gael sicrwydd hefyd y bydd y broses o chwilio am safle newydd yn parhau, ac y byddai'r Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau newydd.

Data ar Dipio Anghyfreithlon – i roi i'r Pwyllgor y wybodaeth yr ydych chi a swyddogion wedi'i hasesu i ddod i'r casgliad nad yw achosion o dipio anghyfreithlon wedi cynyddu yng Nghaerdydd ers cau Heol Wedal

27 : RHWYDWAITH GWRES ARDAL CAERDYDD - DIWEDDARIAD I'R AELODAU

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Michael i'r Pwyllgor.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Michael i wneud datganiad lle nododd y byddai ymchwiliadau ynghylch systemau rhwydwaith gwres ledled y DU a byddai'r cynnig, os gellir ei gyflwyno, yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd a fydd o fudd i'r ddinas.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar Rwydwaith Gwres Ardal Caerdydd a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y materion canlynol:

- Gofynion technegol Rhwydwaith Gwres
- Y Rhwydwaith Arfaethedig
- Dichonoldeb a Dylunio
- Ariannu
- Darpar ddefnyddwyr y rhwydwaith
- Cynlluniau ar gyfer dilyniant y rhwydwaith
- Prynu a gwerthu'r gwres.

Yn dilyn y drafodaeth/cyflwyniad, gofynnodd y Cadeirydd i Aelodau'r Pwyllgor a hoffent wneud sylwadau, codi cwestiynau neu ofyn am eglurhad pellach ar unrhyw rai o'r materion a drafodwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar faint o garbon y gellid ei arbed drwy ddefnyddio'r rhwydwaith. Eglurodd swyddogion y gellid arbed tua 70% o garbon, gallai hyn fod yn fwy ond bod rhaid defnyddio boeleri nwy achlysurol i gynnal y rhwydwaith pan nad oedd gwres yn cael ei gynhyrchu gan Viridor. Byddai hyn hefyd yn cael ei wella, gyda nifer cynyddol o adeiladau a chyfleusterau yn cael eu hychwanegu at y rhwydwaith.
- Holodd y Pwyllgor pryd y bydd y rhwydwaith yn weithredol. Amcangyfrifwyd mai 2022 y bydd cyn bod modd cysylltu'r cwsmeriaid cyntaf. Roedd heriau sylweddol o ran datblygu'r rhaglen ond byddai'r manteision yn sylweddol i Gaerdydd ac i Gymru.
- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o'r costau o ran defnyddio'r rhwydwaith. Eglurwyd y byddai'r defnyddwyr yn talu 5% yn llai na'r pris nwy ond y byddai defnyddwyr yn gallu manteisio ar gymhellion treth ychwanegol i ddefnyddio'r rhwydwaith. Rhagwelir mai bach iawn fydd yr elw i'r Cyngor o'r cynllun.
- Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol bod cais newydd am ynni ar gyfer gwastraff yn cael ei ystyried ar gyfer safle rhwng Caerdydd a Chasnewydd. Esboniwyd bod y rhwydwaith gwres cynlluniedig yn annibynnol ac nad oedd y Cyngor yn ystyried defnyddio'r safle newydd arfaethedig.
- Roedd y Pwyllgor wedi cael gwybod am fanteision y rhwydwaith ond holwyd a oedd unrhyw agweddau negyddol. Esboniwyd y byddai'n amharu ar y heolydd wrth i'r rhwydwaith gael ei osod. Roedd ffynonellau gwres eraill hefyd yn cael eu hymchwilio ond roeddent yn rhy gostus ar hyn o bryd, ond gallent o bosibl leihau'r angen am foeleri nwy ymhellach.
- Roedd cais am grant ar gyfer y cyllid cyfalaf o £370 miliwn, a oedd ei angen i ddarparu'r system, yn cael ei ddatblygu, ac roedd gan y Cyngor ymrwymiad o £4 miliwn a oedd yn cael ei ystyried gan y Gwasanaethau Cyfreithiol.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd gyda'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:-

- Darparu crynodeb iddynt o'r risgiau ariannol posibl a'r costau cysylltiedig ar gyfer y Rhwydwaith Gwres Ardal;
- Cadarnhau a oes pwynt i gost y cynllun ddod yn ariannol anymarferol i'r Cyngor, ynghyd â manylion y broses monitro ariannol
- Mae'r 'Cyfraddau Salwch Uchel' a nodwyd yn y Adroddiadau Chwarter 3 a Pherfformiad Alldro 2018/19 hefyd yn berthnasol i'r Portffolio Strategaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth ac felly gwerthfawrogi'r ymateb ar y cyd

28 : RHAGLEN I OSOD ARWYNEB NEWYDD AR Y BRIFFORDD - NODYN
BRIFFIO AELODAU

Cafodd y Pwyllgor bapur briffio er gwybodaeth.

Cytunwyd: Nododd y Pwyllgor y papur briffio.

29 : PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL - RHEOLI BIOAMRYWIAETH A'R
AMGYLCHEDD NATURIOL YNG NGHAERDYDD

Rhoddodd y Swyddog Craffu ddiweddariad a chynghorodd sut y byddai'r mater hwn yn cael ei ddatblygu.

Cytunwyd: Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf.

30 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Nid oedd unrhyw faterion bryd i'w trafod.

31 : Y FFORDD YMLAEN

32 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Hysbyswyd yr Aelodau y bydd y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol yn cael ei drefnu ar gyfer Dydd Mercher 20^{fed} Tachwedd 2019 am 4.30pm yn Neuadd y Ddinas.

33 : GOHEBIAETH YN DILYN CYFARFOD Y PWYLLGOR

Daeth y cyfarfod i ben am 7.35 pm